ATODIAD / ENCLOSURE A

# PWYLLGOR SAFONAU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr 2010

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Ms. Sue Morris - Is-Gadeirydd yn y Gadair<br><br>**Aelodau Lleyg**<br><br>Mrs Pamela Moore;<br><br>Y Cynghorwyr J. Arwel Roberts, Ieuan Williams. |
| **WRTH LAW:** | Swyddog Monitro (LB)<br>Swyddog Staff (RLH)<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU** | Mr. J. Cotterell, Mr. Raymond Evans, Yr Athro R. Grove-White, Y Cynghorydd T. Lloyd Hughes |
| **HEFYD YN BRESNNOL:** | Y Cynghorydd H. Eifion Jones |

### 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Nid oedd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod na Swyddog.

### 2 CAIS AM GANIATÂD ARBENNIG

Estynnodd y Cadeirydd wahoddiad i'r Swyddog Monitro annerch y cyfarfod. Dygodd y Swyddog Monitro sylw at yr adroddiad a gyflwynwyd fel rhan o'r rhaglen ar gyfer y cyfarfod. Soniodd bod cais wedi ei wneud gan y Cynghorydd H. Eifion Jones am ganiatâd arbennig fel bod modd iddo gymryd rhan yn y drafodaeth a'r pleidleisio ym Mhanel Tâl a Graddfeydd y Cyngor ac ynghylch unrhyw faterion sy'n codi o fusnes y Panel Tâl a Graddfeydd a allai, ar ryw adeg yn y dyfodol, gael sylw gan y Cyngor llawn.

Os bydd caniatâd yn cael ei roi, mae'r cais yn gofyn iddo ddod i rym o 20 Rhagfyr 2010, sef dyddiad cyfarfod nesaf y Panel Tâl a Graddfeydd, a'i fod yn parhau am o leiaf 6 mis fel bod modd i'r Panel gwblhau ei waith. Fodd bynnag, oni fydd y Panel Tâl a Graddfeydd yn cwblhau ei waith yn y cyfnod 6 mis, yna byddai'n rhaid i'r Cynghorydd H. Eifion Jones roi'r gorau i fod yn aelod o'r Panel neu gyflwyno cais pellach am estyniad i'r caniatâd a roddir.

Mae'r budd personol mewn perthynas â'r caniatâd yn ymwneud â mab y Cynghorydd H. Eifion Jones sydd yn yn awr yn gweithio ar sail dros dro i'r Cyngor am 6 mis. Mae'r Cynghorydd Jones yn aelod o'r Panel Tâl a Graddfeydd; prif waith y Panel yw penderfynu telerau ac amodau cyflogaeth staff y Cyngor yn y dyfodol ac, yn benodol, dylunio strwythur tâl newydd a thelerau ac amodau eraill hefyd. Mae cyflogaeth mab y Cynghorydd Jones gyda'r Cyngor yn ddiddordeb personol ac mae ei rôl a'i ddylanwad ar y Panel Tâl a Graddfeydd yn ei wneud yn ddiddordeb sy'n rhagfarnu dan y Côd Ymddygiad. Mewn amgylchiadau lle mae diddordeb sy'n rhagfarnu, mae gan y Pwyllgor Safonau bwerau statudol i roi caniatâd arbennig i aelodau os yw'n fodlon bod un neu fwy o'r rhesymau statudol a benodir wedi eu bodloni yn seiliedig ar y ffeithiau.

Dywedodd y Swyddog Monitro ymhellach bod y cais wedi ei wneud ar y sail statudol y byddai arbenigedd y Cynghorydd Jones a'i rôl fel cyn Cadeirydd ac aelod o'r Panel Tâl a Graddfeydd am y 4 blynedd diwethaf yn cyfiawnhau rhoi caniatâd arbennig.

Dywedodd bod raid i'r Pwyllgor Safonau benderfynu a yw arbenigedd y Cynghorydd Jones yn ddigonol i gyfiawnhau rhoi caniatâd arbennig. Os bydd y Pwyllgor yn penderfynu bod yr

arbenigedd yn ddigonol, yna byddai'n rhaid gwneud penderfyniad ynghylch cyfnod y caniatâd a'r hawl i siarad a phleidleisio yn y Panel.

Gwahoddwyd y Swyddog Adnoddau Dynol gan y Swyddog Monitro i annerch y Pwyllgor ar rôl y Panel Tâl a Graddfeydd ac effaith bosib gwaith y Panel ar delerau ac amodau gweithiwr dros dro a rhoddodd wahoddiad iddo hefyd wneud sylw ynghylch y lefel o arbenigedd y byddai aelod wedi ei feithrin yn sgil bod ar y Panel Tâl a Graddfeydd am dros 4 blynedd.

Dywedodd y Swyddog Adnoddau Dynol bod y Panel Tâl a Graddfeydd wedi ei sefydlu i hwyluso strwythur tâl a graddfeydd diwygiedig, telerau ac amodau diwygiedig mewn perthynas â thaliadau am fod wrth gefn, lwfansau teithio a threfniadau gweithio hyblyg diwygiedig posib yn y Cyngor. Ym mis Mawrth 1998, penderfynodd y Cyngor Sir, trwy ei Bwyllgor Staff, gymeradwyo gweithredu Cynllun Arfarnu Swyddi y Cyd-Gyngor Cenedlaethol. Wedi hynny, mae swyddi unigol wedi eu hasesu gan banelwyr sydd wedi derbyn hyfforddiant a lluniwyd trefn ranc o swyddi. Yn ogystal, penderfynodd y Cyngor Sir ym mis Rhagfyr 2006 sefydlu Panel Tâl a Graddfeydd yn yr Awdurdod i gytuno ar y strwythur tâl a graddfeydd unedig ar gyfer yr holl staff. Nododd bod Cylch Gorchwyl y Panel Tâl a Graddfeydd wedi ei amlinellu yn y dogfennau a oedd ynghlwm wrth raglen y Pwyllgor hwn. Cylch Gorchwyl y Panel yw:-

- cadarnhau dyluniad y strwythur tâl y bwriedir y bydd yn cael ei weithredu yn y sefydliad.

- cyflwyno sylwadau ar faterion fel lwfansau a thaliadau arbennig y bwriedir cael gwared arnynt neu eu newid trwy drafodaethau; hyblygrwydd mewn trefniadau gweithio a allai fod yn rhan o becyn cyffredinol o gynigion; materion effeithlonrwydd eraill ac arbedion effeithlonrwydd a allai fod yn rhan o drafodaethau ynghylch mabwysiadu a chyflwyno'r strwythur tâl newydd; unrhyw gynigion ar gyfer cyflwyno unrhyw fath o wobr perfformiad neu gynlluniau eraill yn y strwythur tâl newydd.

- cyfarfod, fel y cyfyd yr angen, i ystyried a chyflwyno sylwadau i'r rheini sy'n trafod os ydynt yn ystyried bod angen gwneud hynny i gael cyngor yn ystod trafodaethau gyda'r undebau llafur.

- cymeradwyo'r cynllun a'r amserlen weithredu arfaethedig.

- cymeradwyo'r argymhellion terfynol yn dilyn cwblhau trafodaethau'n llwyddiannus ar y strwythur tâl a materion cysylltiedig.

- ystyried a phenderfynu unrhyw geisiadau sy'n codi o'r trafodaethau neu'r strwythur tâl a gymeradwyir a'r newidiadau cysylltiedig mewn telerau.

- ystyried a phenderfynu unrhyw faterion mewn perthynas â thâl a graddfeydd y bydd raid rhoi sylw iddynt cyn gweithredu'r strwythur graddio diwygiedig a gymeradwyir.

Yn ogystal, rhoddwyd gwybod i'r Panel Tâl a Graddfeydd am risgiau a all godi wrth wneud penderfyniadau mewn perthynas â methiant i benderfynu neu gynnal y status quo; methiant i fuddsoddi cyllid digonol a phenderfyniad i weithredu'n unochrog h.y. costau gweinyddol sylweddol, heriau cyfreithiol.

Mae'r Panel Tâl a Graddfeydd wedi rhoi sylw i'r cytundeb arfaethedig cyfredol yn dilyn trafodaethau manwl gyda'r Undebau Llafur dros y 4 blynedd diwethaf. Rhoddwyd gwybod i'r Panelwyr hefyd am faterion cydraddoldeb ac maent wedi'u briffio'n llawn ar yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb mewn perthynas â gweithwyr gwrywaidd/benywaidd a gweithwyr rhan amser a llawn amser. Nododd mai dyna lle roedd arbenigedd y Panelwyr yn dod i rym.

Fodd bynnag, dywedodd y Swyddog Adnoddau Dynol bod panelwyr newydd wedi ymuno â'r Panel Tâl a Graddfeydd dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf ond oherwydd bod cymaint o waith wedi ei wneud ar y strwythur tâl a graddfeydd, roedd yn ystyried bod arbenigedd y Panel yn hollbwysig ar gyfer cwblhau'r gwaith.

Dywedodd yr ymgeisydd, y Cynghorydd H. Eifion Jones, mai ef oedd Cadeirydd cyntaf y Panel Tâl a Graddfeydd ac, ar yr un pryd, ef oedd yr Aelod Portffolio ar gyfer Adnoddau Dynol. Dywedodd ei fod wedi bod yn ymwneud yn agos â'r strwythur tâl a graddfeydd am y 4 blynedd diwethaf gan

gynnwys trafodaethau manwl gyda'r Undebau Llafur mewn perthynas â'r mater cymhleth hwn. Dywedodd y Cynghorydd Jones y bydd rhaid gwneud penderfyniadau hollbwysig yn y dyfodol agos mewn perthynas â'r cynllun arfarnu swyddi. Pwysleisiodd na fyddai'n gwneud unrhyw wahaniaeth iddo ef yn bersonol pe na bai'n aelod mwyach o'r Panel ond byddai'n well i'r Cyngor pe bai'n parhau i fod yn aelod o'r Panel Tâl a Graddfeydd oherwydd na fyddai'n ddoeth cyflwyno rhywun newydd i wasanaethu ar y Panel ar yr adeg hwyr hon. Dywedodd y Cynghorydd Jones ymhellach bod y Cyngor Sir wedi penderfynu creu Panel Tâl a Graddfeydd yn 2006 i ganiatáu i nifer fechan o aelodau gael arbenigedd ar y strwythur arfarnu swyddi yn hytrach na chael y Cyngor llawn yn trafod y mater. Roedd yn ystyried na fyddai cyflogaeth dros dro ei fab yn llywio ei farn mewn perthynas â'r cynllun arfarnu swyddi.

Ar ôl gwrando ar sylwadau a wnaed gan swyddogion a'r ymgeisydd ac ar ôl gofyn cwestiynau, dywedodd y Cadeirydd y byddai'r Pwyllgor Safonau yn mynd i sesiwn breifat i ystyried ei benderfyniad. Ar ôl dychwelyd i'r sesiwn gyhoeddus, dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi:

**PENDERFYNU'N unfrydol rhoi Caniatâd llawn i'r Cynghorydd H. Eifion Jones siarad a phleidleisio yn y Panel Tâl a Graddfeydd ac yn y Cyngor llawn ar waith sy'n ymwneud â materion y Panel Tâl a Graddfeydd a hynny am gyfnod o 12 mis yn cychwyn ar 20 Rhagfyr 2010. Mae'r Pwyllgor Safonau yn fodlon bod y Cynghorydd Jones wedi dangos yr arbenigedd angenrheidiol i fodloni'r sail statudol.**

**MS. SUE MORRIS**
**IS-GADEIRYDD YN Y GADAIR**

# PWYLLGOR SAFONAU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14 Rhagfyr, 2010

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Mr Jeffrey Cotterell (Cadeirydd)<br><br>**Aelodau Lleyg**<br><br>Mrs Pamela Moore<br>Ms Sue Morris<br>Mr H Gray Morris<br><br>**Yn cynrychioli'r Cyngor Sir**<br><br>Y Cynghorwyr Trefor Lloyd Hughes, J Arwel Roberts, Ieuan Williams |
| **WRTH LAW:** | Swyddog Monitro<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (RJ)(ar gyfer Eitem 3)<br>Swyddog Gwybodaeth Gorfforaethol (HP)(ar gyfer Eitem 4)<br>Uchel Gyfreithiwr (ROH)(ar gyfer Eitem 5)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH)<br>Cynorthwy-ydd Gweinyddol (SWJ) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Yr Athro Robin Grove White, y Cynghorydd Raymond Evans (Cynghorau Tref a Chymuned) |

---

Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Safonau a chyflwynodd yr ymddiheuriadau am absenoldeb ac fe'u nodwyd.

### 1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni wnaed yr un datganiad o ddiddordeb.

### 2 COFNODION

Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 14 Medi, 2010 fel rhai cywir.

### 3 ADOLYGU RHEOLAU GWEITHDREFN MATERION CYNLLUNIO

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Pennaeth Gwasanaeth (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd) i'r Pwyllgor hwn ei ystyried a chyflwyno sylwadau arno ac a oedd yn amlinellu canlyniad adolygiad o Reolau Gweithdrefn Materion Cynllunio a ymgorfforir ar hyn o bryd yn Rhan 4.6 o Gyfansoddiad y Cyngor.

Esboniodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol bod Rheolau Gweithdrefn Materion Cynllunio yn rhoi arweiniad i aelodau etholedig ac i swyddogion pan fônt yn delio gyda materion cynllunio. Nid yw rheolau yn ceisio bod yn gyfarwyddyd cywir, slafaidd nac yn gyfarwyddyd cynhwysfawr i'r gyfraith a all fod yn faes eithaf dyrys. Yn hytrach, maent yn rhoi cyngor ar ymddygiad a gweithdrefnau, ac o ddilyn y cyngor hwnnw, fe ddylai aelodau a swyddogion fedru osgoi gwneud camgymeriad. Ni chynhaliwyd adolygiad ar ei ben ei hun; gellir ei ystyried yng nghyd-destun Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol 2009 a rhai argymhellion a godod ynddo. Roedd Rhan 1.4 yr adroddiad yn rhestru nifer o newidiadau eraill yn y Cyfansoddiad a'r Gweithdrefnau sy'n codi o'r Arolygiad Llywodraethu Corfforaethol ac amryfal faterion eraill a ymgorfforwyd wedyn o fewn Cynllun Gwella'r Gwasanaethau Cynllunio ar gyfer y Broses Gwneud Penderfyniadau am 2010. Roedd y gwelliannau yn y Cynllun yn cynnwys adolygiad o'r Rheolau, ac yn benodol, sut mae'r

Rheolau yn gweithredu o ran cynnal y Pwyllgor Cynllunio ac fel côd ymarfer i aelodau a swyddogion sy'n delio gyda materion cynllunio.

Cyfeiriodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol at yr Atodiad i'r adroddiad a oedd yn nodi cynnyrch yr adolygiad. Achubwyd ar y cyfle yn gyffredinol i dacluso'r Rheolau a gwneud rhai newidiadau sylfaenol. Mae'r prif newidiadau ynghyd â'r rhesymau drostynt wedi'u cynnwys yn y Tabl yn rhan 2.3 yr adroddiad ac maent yn cyfeirio at y paragraffau isod -

- ***Newid 1** : Paragraff 4.6.4.3.3 - Argymhellir na ddylai aelod sy'n gwasanaethu ar y Pwyllgor gael caniatâd naill ai i bleidleisio nac i gynnig nac i eilio argymhelliad ar gais o fewn ei ward. Y rheswm dros gynnig y newid hwn yw er mwyn gostwng y risg y gall aelod gael ei weld fel petai'n mynd ar ôl un canlyniad arbennig ar gais am resymau gwleidyddol yn hytrach na rhesymau cynllunio a'r posibilrwydd o her i'r penderfyniad. Fe all yr aelod lleol siarad yn y Pwyllgor ond dim ond fel aelod lleol.*

Mewn perthynas â'r newid arfaethedig uchod, mynegwyd barn gan rai o aelodau lleyg y Pwyllgor y byddid wedi disgwyl y byddai darpariaeth o'r fath eisoes yn weithredol, ac er budd tryloywder llwyr, rhaid cael gwared â'r risg y gellid gweld aelod lleol fel rhywun nad oedd yn ddiduedd. Ar y llaw arall, mynegwyd y farn bod peidio â chaniatáu i aelod lleol bleidleisio nac eilio argymhelliad ar gais o fewn ei ward yn dwyn amheuaeth ar wrthrychedd yr aelod ac yn awgrymu, er gwaethaf yr hyfforddiant trwyadl a gafwyd o ran priodoldeb yn y broses gynllunio, y gellid dylanwadu ar aelodau. Roedd teimlad hefyd na ddylai bod yn aelod lleol amddifadu aelod o'r hawl i bleidleisio pan fo wedi'i benodi / phenodi yn ddemocrataidd i wasanaethu ar y Pwyllgor.

**Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd trwy bleidlais fwyafrifol i beidio â chefnogi'r newid a gynigir uchod. (Pleidleisiodd dau aelod o blaid y newid).**

- *Newid 2 : Paragraff 4.6.10.2 - Cynnig egluro'r rheolau ynghylch pa geisiadau gan aelodau a rhai gan swyddogion y dylid eu cyfeirio i'r Pwyllgor am benderfyniad yn hytrach na chael eu gwneud gan swyddogion o dan bwerau dirprwyol. Mae'r newidiadau yn awr yn egluro pa fath o gais y dylid ei gyfeirio i'r Pwyllgor (yn sylfaenol yr holl geisiadau sydd yn ofynnol eu gwneud trwy statud) a'r categori o swyddogion (swyddogion ar lefel Pennaeth Gwasanaeth ac uwch a phob swyddog sydd â rhan uniongyrchol yn y broses gynllunio).*

Mewn perthynas â'r newid arfaethedig uchod, roedd consensws cyffredinol ymysg yr aelodau ynghylch derbynioldeb y newid hwn gan ystyried y byddai rhagor o eglurhad ynghylch y mathau o geisiadau y dylid eu cyfeirio i'r Pwyllgor, a'r categori o'r swyddogion y maent yn berthnasol iddynt, yn gymorth ac yn hwyluso'r broses gynllunio.

**Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd yn unfrydol i gefnogi'r newid a gynigir uchod.**

- *Newid 3 : Paragraff 4.6.19.1.1(vi) - Lle bo'r Pwyllgor yn pleidleisio am ymweliad safle yna dim ond yr aelodau hynny o'r Pwyllgor sydd wedi ymweld â'r safle gaiff siarad neu bleidleisio pan penderfynir y cais. Cynigir y newid hwn ar y sail lle bo Pwyllgor yn credu bod angen ymweld â safle cyn penderfynu ar gais, yna mae'n dilyn yn rhesymol o hynny mai dim ond yr aelodau sydd wedi bod ar safle fel rhan o'r ymweliad swyddogol sydd mewn sefyllfa i benderfynu ar y cais.*

Cafwyd trafodaeth sylweddol ynghylch rhinweddau'r newid a gynigir uchod gan gynnwys trafodaeth faith ar y sail a ddefnyddir i benderfynu a ddylid ymweld â safleoedd ai peidio a thrafodaeth hefyd ynghylch a yw'r meini prawf ar gyfer penderfynu a ddylid ymweld â'r safle yn rhai y gellir eu cyfiawnhau ac yn rhai y glynir wrthynt pob amser. Oherwydd nad oes cynrychioliaeth lawn ar ymweliadau safleoedd bob amser, mynegwyd yn gadarn, pe bai'r newid hwn yn cael ei weithredu, y gall sefyllfa godi lle byddai penderfyniad cynllunio yn cael ei wneud gan ddim ond ychydig o aelodau o'r Pwyllgor ac roedd teimlad bod hynny'n annerbyniol ac yn afresymol o gofio bod y wybodaeth a ddarperir gan swyddogion yn eu hadroddiadau yn llawer mwy trylwyr a manwl na'r wybodaeth y gellir ei chael trwy ymweld â safle. Roedd teimlad nad oedd manteision ymweliad safle yn ddigonol i gyfiawnhau gorfodir cyfyngiad a gynigir uchod. Ymhellach, awgrymwyd bod aelodau yn aml yn gyfarwydd iawn gydag ardaloedd penodol ac na fyddai angen iddynt ymweld â'r safle i fedru gwneud penderfyniad ar gynnig datblygu yn ei gylch. Y farn i'r gwrthwyneb oedd bod

adnabyddiaeth o safle yn wahanol iawn i ymweliad manwl â safle lle byddai aelodau yn cael cyngor proffesiynol gan y swyddog a chael gwybod hefyd am eiddo a maint y safle penodol. Awgrymwyd ymhellach, os yw Pwyllgor yn penderfynu bod angen ymweliad safle er mwyn cynorthwyo aelodau i benderfynu ar gais cynllunio, y byddai'n dilyn yn rhesymol o hynny mai'r aelodau hynny a ymwelodd â'r safle sydd yn y sefyllfa orau i ddod i benderfyniad ar y cais yn seiliedig ar yr holl wybodaeth.

***Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd trwy bleidlais fwyafrifol i gefnogi'r newid a gynigir uchod. (Pleidleisiodd pedwar aelod o blaid y newid).***

*(Gadawodd y Cynghorydd J A Roberts y cyfarfod yn y fan hyn oherwydd ymrwymiadau gwaith).*

## 4 PROTOCOL GWYBODAETH DRAFFT

Cyflwynwyd adroddiad gan y Swyddog Gwybodaeth Gorfforaethol yn amlinellu Protocol ar hawliau aelodau i gael gwybodaeth. Cyflwynwyd yr adroddiad i sylw'r aelodau gyda golwg ar i'r Pwyllgor argymell ei fabwysiadu fel rhan o Gyfansoddiad y Cyngor.

Dywedodd y Swyddog Gwybodaeth Gorfforaethol wrth y Pwyllgor, er bod cyngor ynghylch hawliau i gael mynediad i wybodaeth i'w weld yn rhan 5.3.8 o Gyfansoddiad y Cyngor, roedd y Protocol uchod yn ceisio gwella cyflwyniad ac eglurder y wybodaeth honno yn seiliedig ar y gydnabyddiaeth bod angen, mewn datganiad clir a diamwys, fynegi hawliau Cynghorwyr i gael mynediad i wybodaeth ynghyd â dyletswyddau'r Cyngor i ddarparu mynediad i wybodaeth. Mae'r Protocol Gwybodaeth drafft yn rhoi crynodeb o sut mae hawliau aelodau i gael mynediad i wybodaeth wedi'u sefydlu mewn statud a chyfraith gyffredin a hefyd ddisgwyliadau mewn perthynas â chyfrinachedd. Bydd darparu'r wybodaeth hon ar ffurf un Protocol hunangynhwysol yn sicrhau datganiad clir ar faterion mynediad i wybodaeth. Bydd protocol hefyd yn galluogi'r Cyngor i ddatblygu ei gynnwys er mwyn adlewyrchu'n well y newidiadau i'r dirwedd gyfreithiol.

Yna aeth y Swyddog Gwybodaeth Gorfforaethol a'r aelodau trwy rannau unigol y protocol drafft fel yr oeddynt yn ymwneud â'r materion isod -

- Darparu Gwybodaeth
- Ymweliadau
- Materion Ward
- Briffio
- Rheolwr-gyfarwyddwr yn briffio Arweinwyr Grwpiau

Mewn perthynas â'r datganiad yn y Protocol nad yw'r gyfraith yn caniatáu rhwydd hynt i gynghorwyr edrych trwy ddogfennau'r Cyngor, gofynnodd yr aelodau am eglurhad ar hawliau Cynghorwyr i gael gweld gwybodaeth, yn arbennig gwybodaeth fanwl ar fater a allai fod yn berthnasol i'r Ynys gyfan e.e. ffioedd parcio, er na fyddai cynghorwyr unigol o angenrheidrwydd yn gallu dangos angen i wybod fel aelodau o'r pwyllgor perthnasol gafodd y dasg o ddelio gyda'r mater. Roedd cwestiwn ynghylch ym mha le y dylai cynghorydd ofyn am wybodaeth yn arbennig os yw'r cynghorydd yn aelod o'r meinciau cefn a hefyd roedd cwestiwn ynghylch a ganiateid iddo ef/hi hawl ofyn cwestiynau manwl os nad ydynt yn aelodau o'r Pwyllgor perthnasol ac/neu'r grwp tasg a gorffen.

Dywedodd y Swyddog Gwybodaeth Gorfforaethol bod y dyfyniad "roving commission" wedi'i godi o achos llys penodol ynghylch hawliau cynghorwyr dan gyfraith gyffredin. Mae angen i wybod yn bodoli lle bo cynghorydd yn gallu dangos ei fod/bod angen cael gweld darn o wybodaeth i hwyluso ei swyddogaeth fel cynghorydd, ac fel arfer, byddai hynny'n ymwneud â busnes cyfredol y Cyngor neu fusnes sydd ar y gweill. Cafodd yr ymadrodd "roving commission" ei gynnwys yn y protocol er mwyn rhoi sylw i'r ceisiadau posib gan gynghorwyr am wybodaeth sy'n dyfynnu'r angen i wybod er mwyn ailymweld â materion hanesyddol nad oes a wnelont ddim â busnes cyfredol. Esboniodd y Swyddog Monitro bod dwy senario yn bosib yma, un lle roedd cynghorydd yn gallu dangos yr hyn a ddisgrifir mewn cyfraith achos fel angen i wybod fel aelod o'r Pwyllgor sydd angen y wybodaeth fel y gall, er enghraifft, sgriwtineiddio penderfyniad neu ofyn cwestiynau; a'r llall lle gall cynghorydd nad yw'n aelod o'r Pwyllgor perthnasol wneud cais dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth fel dinesydd cyffredin hyd at derfyn statudol o ran yr amser a gymerwyd i gasglu'r data hwnnw.

Dywedodd y Swyddog Gwybodaeth Gorfforaethol nad yw hawliau aelodau cyffredin o'r cyhoedd dan y ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth wedi'u cynnwys yn y protocol uchod. Fodd bynnag, mae gan gynghorwyr hawliau eang i gael mynediad i wybodaeth ac, mewn achosion lle na ellir dangos angen i wybod, gall ef/hi ymarfer hawliau fel dinesydd i gyflwyno cais dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

**Penderfynwyd yn unfrydol, i argymell y Protocol Gwybodaeth Drafft i'r Cyngor Sir i'w fabwysiadu fel rhan o Gyfansoddiad y Cyngor.**

## 5 PROTOCOL DRAFFT AR GYFER GWIRIADAU TROSEDDOL

Cyflwynwyd adroddiad gan Mr Rhys Hughes, Uchel Gyfreithiwr (Gofal Plant) yn amlinellu cynnwys arfaethedig polisi drafft newydd ar gyfer Cofnodiadau Troseddol. Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor ei ystyried gyda golwg ar ei argymell i'r Cyngor Sir i'w fabwysiadu.

Esboniodd yr Uchel Gyfreithiwr bod y Cyngor wedi'i gofrestru gyda'r Swyddfa Cofnodiadau Troseddol (SCT) ac yn unol â'r gyfraith, bod rhaid iddo wneud gwiriadau o ran y rheini sydd mewn swyddi lle mae cyswllt uniongyrchol rheolaidd a heb oruchwyliaeth gyda phobl a phlant bregus. Mae'r polisi uchod yn atgyfnerthu polisi gwiriadau cefndirol safonol personel trwy osod canllawiau i adnabod y swyddi hynny sydd angen gwiriad a hefyd y math o wiriad y bydd angen ei wneud. Yn ogystal, mae'r polisi yn cynnig y dylid cynnal gwiriadau uwch ar gyfer pob aelod etholedig a phob aelod cyfetholedig cyn y gallant ddechrau cyflawni eu dyletswyddau, er enghraifft, gwasanaethu ar y Pwyllgorau Tai, Gwasanaethau Cymdeithasol neu Addysg, a chynrychioli'r Cyngor ar gyrff allanol, er enghraifft, fel Llywodraethwyr Ysgol. Ychydig o Gynghorau sydd gyda pholisi o'r fath mewn grym ac ychydig iawn sydd wedi cynnwys amod bod raid i aelodau'r Cyngor gael eu gwirio yn y fath fodd. Mae Sir Ddinbych yn un awdurdod a chanddo bolisi tebyg mewn grym ac mae ei Swyddog Monitro wedi'i gynnwys yn y broses ymgynghori, ynghyd â'r Rheolwr-gyfarwyddwr Dros Dro, y Swyddog Monitro, y Swyddog Gwybodaeth Gorfforaethol, Cyfarwyddwyr Corfforaethol a'r Adran Adnoddau Dynol. Cyfeiriodd yr Uchel Swyddog hefyd at broses wirfoddol glodwiw iawn lle cytunodd aelodau etholedig Cyngor Sir Ynys Môn y gallant wirfoddoli i gael eu gwirio ac mae'r broses honno wedi'i dilyn ac eithrio yn achos ychydig iawn o aelodau.

Dygodd yr Uchel Gyfreithiwr sylw'r Pwyllgor at y ffaith bod y polisi uchod, fel fersiwn ddrafft, yn ddogfen sy'n dal i ddatblygu a bydd yn cael ei chylchredeg i aelodau etholedig hefyd fel rhan o'r broses ymgynghori. Mae'r polisi wedi cael ei ystyried gan Arweinwyr y Grwpiau Gwleidyddol ac awgrymwyd rhai newidiadau ganddynt sydd bellach wedi'u cynnwys yn y trydydd drafft. Yn gyffredinol, roedd Arweinwyr Grwpiau yn unfrydol yn eu cefnogaeth i'r polisi drafft, ond fe gododd rhai materion penodol yn y drafodaeth ac un ohonynt oedd yr angen i fod yn destun mwy nag un gwiriad SCT. Mewn ymateb i'r pwynt hwn, esboniodd yr Uchel Gyfreithiwr bod y polisi yn caniatáu i'r gyfadran briodol ymarfer ei disgresiwn a derbyn gwiriad SCT cyfredol dilys fel nad oes angen cynnal gwiriad arall os oes un dilys eisoes mewn grym. Cynigir y gellir ymarfer y disgresiwn hwn os cafodd y gwiriad SCT ei wneud dim mwy na blwyddyn yn ôl.

Ymhelaethodd yr Uchel Gyfreithiwr wedyn ar y gwahanol rannau o'r polisi drafft gan gyfeirio'n benodol at wiriadau safonol a gwiriadau uwch; y dull o drin contractwyr annibynnol a mathau eraill o weithwyr asiantaeth; a'r disgwyliadau ynghylch aelodau etholedig a chyfetholedig o'r Cyngor. Nododd mai un o bryderon eraill yr Arweinwyr Grwpiau oedd aelodau nad oeddent yn cydymffurfio a sut y gellid delio â nhw. Os yw amharodrwydd aelod i gydymffurfio yn seiliedig ar y ffaith ei fod o/hi eisoes wedi cael gwiriad SCT, yna byddid yn gofyn i'r aelod ddangos bod y gwiriad wedi'i gynnal; os nad yw'n cydymffurfio ar bwynt o egwyddor ac oherwydd y ffaith mai côd ydyw yn hytrach na rhywbeth mandadol, yna gellid dadlau os yw'r protocol yn cael ei fabwysiadu gan y Cyngor yna daw'n bolisi Cyngor a rhoddir gwybod ymlaen llaw i'r aelodau am y disgwyliadau yng nghyswllt cael gwiriad SCT ac wrth gymryd swydd, dylent lynu wrth bolisi'r Cyngor. Petair gwiriad SCT yn datgelu gwybodaeth sy'n gwneud unigolyn yn anaddas, penderfynwyd gyda'r Arweinyddion Grwp mai'r Swyddog Monitro ddylai wneud penderfyniadau mewn perthynas â chydymffurfiaeth neu â chynnwys gwiriad SCT a hynny mewn ymgynghoriad gydag Arweinydd Grwp yr Aelod Unigol neu, yn achos aelodau sydd ddim yn gysylltiedig ag unrhyw grwp, mewn ymgynghoriad gyda Chadeirydd y Cyngor. Gall y Swyddog Monitro gynghori Arweinydd Grwp bod aelod etholedig sy'n anfodlon cael gwiriad SCT yn anaddas o'r herwydd i gael ei ddewis/ei dewis i wasanaethu ar rai Pwyllgorau perthnasol a phetai cwestiwn yn codi ynghylch cynnwys gwiriad SCT a'r wybodaeth honno'n wybodaeth gyfrinachol, y Swyddog Monitro fydd yn dal y wybodaeth honno i bwrpas

gwneud argymhelliad. Mewn unrhyw achos lle mae cwestiwn ynghylch cynnwys gwiriad SCT, byddai aelod unigol yn cael gwybod ac yn cael gwahoddiad i sefyll i lawr o unrhyw Bwyllgor perthnasol y mae o / hi yn gwasanaethu arno e.e. y Pwyllgorau Gwasanaethau Cymdeithasol neu Addysg ac i ymatal rhag cyflawni unrhyw ddyletswyddau sensitif y tu allan i'r Cyngor. Ni fyddai angen cymryd unrhyw gamau pellach. Petai unrhyw anawsterau'n codi, byddai'r Swyddog Monitro yn gwneud cwyn ynghylch diffyg cydymffurfiaeth i'r Pwyllgor Safonau a byddai modd i aelodau'r Pwyllgor hwnnw, yn rhinwedd eu gwiriadau SCT eu hunain, wneud penderfyniad ar y mater.

Cyfeiriodd yr Uwch Gyfreithiwr yn gryno at yr atodiadau i'r polisi a oedd yn cynnwys rheolau ar gyfer delio gyda chyn-droseddwyr; ffurflen asesiad risg ar gyfer penderfynu pa fath o wiriad sydd ei angen; storio, defnyddio a chadw gwybodaeth a ddatgelwyd ynghyd â rhestr wirio ar gyfer adolygu'r wybodaeth a ddatgelwyd. Gorffennodd trwy ddweud bod y polisi drafft uchod yn llenwi'r bwlch cyfredol yng nghweithdrefnau'r Cyngor ac mae'n dwyn ynghyd y pedwar categori o unigolyn sy'n ymwneud â busnes y Cyngor a ddylai gael gwiriad SCT. Fodd bynnag, dygodd yr Uwch Gyfreithiwr sylw at y ffaith bod un categori o unigolion wedi cael ei adael allan, sef Llywodraethwyr Ysgol. Roedd y Cynllun Archwilio a Gwahardd a gynigiwyd gan y llywodraeth flaenorol, ac a oedd i gychwyn yn yr haf ond sydd wedi'i roi o'r neilltu am y tro, i fod yn berthnasol hefyd i Lywodraethwyr Ysgolion. Dywedodd ei fod wedi ymgynghori gyda'r Cyfarwyddwr Addysg Corfforaethol am ei sylwadau ar y pwynt penodol hwn a'i fod yn disgwyl am wybodaeth ynglyn â'r arweiniad y mae'r Cyfarwyddwr Addysg Corfforaethol yn bwriadu ei roddi i ysgolion a llywodraethwyr ysgolion ar y mater.

Roedd Aelodau'r Pwyllgor Safonau yn gefnogol iawn o'r polisi drafft uchod ac roeddynt yn cydnabod gwerth cael polisi o'r fath. Cafwyd peth trafodaeth ynghylch llywodraethwyr ysgol : roedd yr aelodau'n teimlo y dylai'r polisi fod yn berthnasol hefyd i gategori llywodraethwyr ysgolion. Cafwyd cwestiynau hefyd ynghylch logisteg defnyddio'r polisi mewn perthynas â chontractwyr a gwirfoddolwyr. Cafwyd ymholiad pellach ynghylch effaith bosibl datgelu gwybodaeth ar yr unigolion hynny a fydd efallai'n ystyried sefyll fel aelodau etholedig neu fel aelodau o'r Pwyllgor Safonau ond a fyddai'n dal yn ôl oherwydd mân-drosedd ar eu record nad oeddynt eisiau ei datgelu. Gan gyfeirio at y pwynt cyntaf, dywedodd yr Uwch Gyfreithiwr y byddai gwaith ar gyfer contractwyr unigol yn amodol ar asesiad risg fel rhan o'r broses dendro a amlinellwyd yn rhan C3 y Polisi, ac y byddai'r hysbyseb a'r contract gwaith yn datgan a fyddai angen gwiriad SCT boddhaol ai peidio. Cyfrifoldeb y contractwr yw dangos SCT gwreiddiol a dangos tystiolaeth i brofi pwy yw pob unigolyn sy'n ymwneud â'r gwaith. Mewn perthynas â'r ansicrwydd ynghylch yr hyn sy'n digwydd i wybodaeth a ddatgelwyd, dywedodd yr Uwch Gyfreithiwr bod y polisi yn nodi trywydd clir ar gyfer storio, trin a cael gwared o wybodaeth a ddatgelwyd.

**Penderfynwyd yn unfrydol i argymell bod y Polisi Cofnodiadau Troseddol drafft yn cael ei fabwysiadu gan y Cyngor Sir gyda'r argymhelliad ychwanegol y dylid ymestyn y polisi i gynnwys llywodraethwyr ysgolion.**

## 6 CWYNION YNGHYLCH YMDDYGIAD I'R OMBWDSMON

Cyflwynwyd er gwybodaeth i'r Pwyllgor, adroddiad diweddaru gan y Swyddog Gofal Cwsmer ynghylch cwynion cyfredol i ac ymchwiliadau gan yr Ombwdsmon mewn perthynas â Chynghorwyr Cyngor Sir Ynys Môn.

Dywedodd y Swyddog Monitro bod yr adroddiad uchod ar fformat newydd lle caiff aelodau adroddiad blynyddol ar statws yr holl gwynion a gyflwynwyd ers etholiad Mai, 2008 ac, yn ychwanegol, diweddariad chwarterol sy'n rhoddi i aelodau y wybodaeth ddiweddaraf ar statws y cwynion a'r ymchwiliadau cyfredol. Yna aeth ymlaen i adrodd ar statws pob un o'r pedair cwyn gyfredol / cwynion sy'n parhau ac / neu ymchwiliadau ynghylch Ynys Môn a dygodd sylw arbennig at Gwyn Rhif 1 a gyfeiriwyd yn ddiweddar gan yr Ombwdsmon i'r Panel Dyfarnu. Dywedodd y Swyddog Monitro bod yr achos penodol hwn yn debygol o fod yn destun gwrandawiad llawn efallai

yn ystod tri mis cyntaf y Flwyddyn Newydd ac argymhellodd bod aelodau'r Pwyllgor Safonau yn gwneud ymdrech i fynychu'r Gwrandawiad fel ymarfer hyfforddi ac i gael profiad o'r ymarfer hwnnw. Dywedodd y byddai'n rhoi gwybod i'r aelodau am ddyddiadau'r Gwrandawiad trwy e-bost unwaith yr oeddynt wedi'u cadarnhau.

**Penderfynwyd nodi'r wybodaeth.**

## 7 ADRODDIAD YR OMBWDSMON A'R PANEL DYFARNU YNGHYLCH Y CYN-GYNGHORYDD PHILIP FOWLIE

Cyflwynwyd er gwybodaeth i'r Cyngor - copi o adroddiad yr Ombwdsmon ynghyd â chrynodeb o'r prif ganfyddiadau ynghylch y cyn-Gynghorydd Philip Fowlie ynghyd â chopi o lythyr gan y Rheolwr-gyfarwyddwr Interim dyddiedig 12 Tachwedd, 2010 i ITV Cymru.

Atgoffodd y Swyddog Monitro yr aelodau bod y Panel Dyfarnu yn mynnu bod y Pwyllgor Safonau yn cael gwybod yn swyddogol am ei ganfyddiadau yn y cyfarfod nesaf sydd wedi'i drefnu. Caiff llythyr y Rheolwr-gyfarwyddwr i ITV Cymru ei gyflwyno i'r Pwyllgor Safonau ar ei gais ei hun yn bennaf er mwyn dwyn sylw at y pryderon a oedd ganddo ynghylch anghydbwysedd y rhaglen a ddarlledwyd gan ITV Cymru ar Gyngor Sir Ynys Môn ar 4 Tachwedd, 2010 ac a oedd yn cynnwys sylwadau gan y cyn-Gynghorydd Philip Fowlie, ac yn arbennig felly yn wyneb canfyddiadau'r Ombwdsmon y sonnir amdanynt uchod. Nododd aelodau'r Pwyllgor Safonau lythyr y Rheolwr-gyfarwyddwr Interim ynghyd â chynnwys adroddiad yr Ombwdsmon a'i ganfyddiadau.

**Penderfynwyd nodi'r wybodaeth fel y cafodd ei chyflwyno.**

## 8 CYNLLUN HYFFORDDI A DATBLYGU NEWYDD AR GYFER AELODAU

Cafodd copi o'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Cyngor Sir ar 9 Rhagfyr gan y Pencampwr Datblygu Aelodau a Chadeirydd y Gweithgor Datblygu Aelodau ei gyflwyno er gwybodaeth i'r Pwyllgor.

Dywedodd y Swyddog Monitro wrth yr aelodau, oherwydd y ffaith bod cyfarfod y Cyngor Sir ar 9 Rhagfyr wedi mynd yn hwyr, gohiriwyd rhoi sylw i rai o'r eitemau ar y rhaglen ac roedd yr eitemau hynny'n cynnwys y Cynllun Hyfforddi a Datblygu newydd i Aelodau a gyflwynwyd i'r Cyngor ei gymeradwyo. Oherwydd bod ansicrwydd ar hyn o bryd ynghylch a fydd yr eitemau a ohiriwyd yn cael eu cyflwyno i'r cyfarfod nesaf o'r Cyngor ym mis Mawrth neu i bwyllgor arbennig i'w drefnu cyn hynny, roedd hi wedi cynghori'r Adain Hyfforddi i symud ymlaen gyda rhoddi'r cynllun yn ei le er mwyn sicrhau bod modd symud ymlaen mewn modd amserol gyda'r Cynllun ac er mwyn sicrhau na fydd yn segur am dri mis o bosib.

**Penderfynwyd cymeradwyo'r Cynllun Hyfforddi a Datblygu Newydd i Aelodau a nodi ei gynnwys.**

## 9 ADRODDIADAU GAN GADEIRYDD Y PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau adroddiad llafar ar y materion a ganlyn -

- Cyflwyniad y Cadeirydd i Gynhadledd Pwyllgor Safonau Cymru Gyfan a gynhaliwyd ar 14 Hydref, 2010 yn Neuadd y Ddinas Caerdydd. (Cafodd llythyr dyddiedig 12 Tachwedd, 2010 gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chlerc y Cyngor ar ran Pwyllgor Safonau a Moeseg Cyngor Caerdydd a'i Swyddog Monitro yn diolch i Gadeirydd Pwyllgor Safonau Ynys Môn am fynychu ac am ei gyfraniad i'r gynhadledd ei gynnwys fel rhan o bapurau'r rhaglen).

  Dywedodd y Cadeirydd wrth yr aelodau ei fod wedi annerch y gynhadledd ynghylch hyfforddi a datblygu aelodau a faint o broblemau y gellir eu datrys neu eu hosgoi trwy ddatblygu hyfforddiant a sgiliau priodol.

- Canlyniad adroddiad y Cadeirydd i'r Cyngor Sir yn ei gyfarfod ar 9 Rhagfyr mewn perthynas â'r trothwy ar gyfer derbyn rhoddion gan aelodau. (Roedd copi o'r adroddiad ynghyd â phapurau gwybodaeth gefndirol ynghlwm fel rhan o bapurau'r rhaglen).

  Ailadroddodd y Cadeirydd drafodaethau'r Pwyllgor Safonau ar y mater hwn a'i gasgliad wrth argymell i'r Cyngor mai'r trothwy ariannol ar gyfer derbyn rhoddion fydd sero. Fodd bynnag, ar ôl ystyried a thrafod y mater, roedd y Cyngor Sir yn ei gyfarfod ar 9 Rhagfyr, wedi penderfynu drwy bleidlais fwyafrifol i lynu wrth y trefniadau presennol sef glynu wrth y trothwy cyfredol o £20.

- Cyflwyniad y Cadeirydd i'r Cynghorau Tref a Chymuned ar 12 Ionawr mewn perthynas â'u hanghenion hyfforddi.

  Rhoes y Cadeirydd wahoddiad i aelodau'r Pwyllgor gyflwyno unrhyw syniadau ar gyfer y cyflwyniad uchod rhwng rwan a 12 Ionawr a dywedodd y byddai'n croesawu eu hawgrymiadau.

**10 DYDDIADAU CYFARFODYDD**

Ystyriwyd cadarnhau dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd ffurfiol ac anffurfiol y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2011 a chytuno ar eitemau ar gyfer rhaglen y cyfarfod anffurfiol cyntaf. Cyflwynwyd er gwybodaeth i'r aelodau gopi o raglen waith y Pwyllgor Safonau yn dwyn sylw at yr eitemau a awgrymwyd ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Atgoffodd yr aelodau y rhoddwyd ystyriaeth i aildrefnu cyfarfodydd i ddydd Mercher cyntaf y mis. Dywedodd y Swyddog Monitro bod yr Adain Bwyllgorau wedi codi pryderon ynglyn â'r trefniant hwn a dywedwyd wrth yr aelodau bod cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion yn cael eu cynnal ar ddydd Mercher cyntaf pob mis a byddai'n golygu anfon rhaglenni sylweddol ar gyfer y ddau Bwyllgor ar yr un pryd gan roddi pwysau ar y system ar gyfer llungopïo a chynhyrchu rhaglenni. Awgrymwyd y dylid aildrefnu cyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor Safonau y caiff rhaglenni swyddogol eu paratoi ar eu cyfer i ail ddydd Mercher y mis tra bod y cyfarfodydd anffurfiol yn digwydd ar ddydd Mercher cyntaf y mis. Awgrymodd y Swyddog Monitro ymhellach y byddai'r Pwyllgor efallai yn dymuno gostwng nifer y cyfarfodydd anffurfiol i un y chwarter (yn amodol ar wrandawiadau ynghylch eithriadau) gan wneud cyfanswm o 8 cyfarfod y flwyddyn - 4 cyfarfod ffurfiol a 4 o rai anffurfiol. Atgoffodd y Swyddog Monitro yr aelodau hefyd y bydd y Cyngor Sir yn penodi Pwyllgor Safonau newydd yn Rhagfyr, 2011 ac y bydd y broses recriwtio ar gyfer hynny'n cychwyn yn ystod Haf 2011. Bydd Panel y Cyngor ar gyfer Dewis Pwyllgor Safonau yn derbyn ceisiadau o ddiddordeb a bydd gan aelodau lleyg cyfredol y Pwyllgor (ac eithrio'r Gadair a fydd wedi cwblhau ei gyfnod statudol) yr hawl i ailymgeisio.

Gan gyfeirio at gyfarfod anffurfiol nesaf y Pwyllgor, cyfeiriodd y Swyddog Monitro at y materion canlynol fel rhai sydd angen sylw'r aelodau cyn gynted ag sy'n bosibl i'w trafod yn y sesiwn anffurfiol nesaf -

- Siarad cyhoeddus yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Safonau
- Sefydlu panelau i ddelio gyda cheisiadau am eithriadau yn arbennig ar fyr rybudd
- Materion yn codi o gofnodion y cyfarfodydd blaenorol mewn perthynas â sgiliau TGCh yr aelodau a phresenoldeb aelodau mewn cyfarfodydd Pwyllgor
- Adolygu'r rhaglen waith
- Yn wyneb y penderfyniad a wnaed gan y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 9 Rhagfyr, ailystyried y protocol drafft mewn perthynas â rhoddion a lletygarwch
- Parhau i roi sylw i fater hyfforddi aelodau yn wyneb y ffaith bod y 3 aelod a gafodd eu hatal neu eu gwahardd am dorri'r Côd Ymddygiad ac y mae'r Pwyllgor wedi derbyn adroddiadau yn eu cylch, wedi dweud mai diffyg hyfforddiant oedd un o'r rhesymau eu bod wedi torri'r Côd. Er bod yr Ombwdsmon wedi gwrthod yr eglurhad hwn, mae angen i'r Pwyllgor Safonau ac o bosib y Grwp Datblygu Aelodau, edrych ar y mater hwn ac ystyried sut orau i fynd i'r afael arno.

- Mae'r Swyddog Gwybodaeth Gorfforaethol wrthi'n paratoi adroddiad ar hawliau cynghorwyr i grwydro mewn perthynas â defnyddio cardiau 'swipe' i gael mynediad i wahanol adeiniau yn Swyddfeydd y Cyngor. Bydd y Pwyllgor yn cael diweddariad anffurfiol ar gynnydd.

Awgrymodd y Cadeirydd hefyd bod angen trafod a threfnu cyfarfod pellach gydag Arweinyddion Grwpiau.

**Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd -**

- **Yn amodol ar wrandawiadau ynghylch eithriadau, y dylid cynnal wyth cyfarfod o'r Pwyllgor Safonau yn ystod y flwyddyn, pedwar o gyfarfodydd ffurfiol a phedwar o rai anffurfiol.**
- **Aildrefnu cyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor Safonau i ail ddydd Mercher y mis.**
- **Aildrefnu cyfarfodydd anffurfiol y Pwyllgor i ddydd Mercher cyntaf y mis.**
- **Cadarnhau y cynhelir y cyfarfod anffurfiol nesaf ar 2 Chwefror, 2011.**

**Mr Jeffrey Cotterell**
**Cadeirydd**